POLISI PREIFATRWYDD
ATAL TÂN CYMRU

1. Diben y Polisi

1.1 Mae'r Polisi hwn yn disgrifio sut y byddwn yn casglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol, y math o wybodaeth bersonol a chyfrinachol y byddwn yn ei chasglu, a beth y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno ar ei gyfer.

1.2 Mae'r cyfeiriadau yn y Polisi hwn atom "ni" yn golygu Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymru Cyfyngedig (Atal Tân Cymru), sef elusen gofrestredig dan y rhif 1100964 a chwmni cyfyngedig trwy warant, - rhif cwmni 4556865 - sydd â'i swyddfeydd cofrestredig ar y Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY.

1.3 Ni fydd yr elusen yn defnyddio gwybodaeth y byddwn yn ei chasglu ynglŷn ag unigolion ond yn y modd a nodir yn y Polisi hwn. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol.

1.4 I ddiben y Ddeddf Diogelu Data 1998, ni yw rheolwyr data eich gwybodaeth bersonol.

1.5 Rydym yn cadw'r hawl i newid, amrywio a/neu gael gwared ar y Polisi hwn o bryd i'w gilydd. Yn achos unrhyw newidiadau, byddwn yn gyfrifol am bennu'r ffurf briodol y dylai hysbysiad o'r fath yn ei gymryd.

2. Casglu Gwybodaeth Bersonol a Chyfrinachol

2.1 Gwybodaeth **bersonol** yw unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn sy'n ei gwneud yn bosibl i adnabod yr unigolyn hwnnw, megis enw, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost.

2.2 Gwybodaeth **gyfrinachol** fyddai gwybodaeth a ddarperir ar y ddealltwriaeth na fydd yn cael ei rhannu'n ehangach neu i ddibenion gwahanol i'r rhai y cytunwyd arnynt.

2.3 Bydd Atal Tân yn casglu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol a ddarperir gan unigolion pan fyddont yn cytuno i ddarparu hyn. Er enghraifft, i wneud rhodd ariannol, cymryd rhan mewn cyfweliad neu lenwi holiadur, wrth archebu lle mewn digwyddiad, neu gysylltu â'r elusen i ddibenion gwahanol, a hynny'n ysgrifenedig, trwy e-bost, ar y ffôn neu trwy'r wefan.

2.4 Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth ynglŷn â'ch defnydd o Wefan Atal Tân pan fyddwch yn mynd ar Wefan Atal Tân. Mae Polisi Preifatrwydd arall yn ymwneud â'r wefan ar gael.

2.5 **Cydsyniad.** Efallai y bydd unigolion yn darparu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol eu hunain neu trwy bartneriaid trydydd parti sy'n ymwneud â

mentrau ar y cyd gydag Atal Tân Cymru. Lle bo gwybodaeth yn cael ei darparu gan drydydd parti, bydd Atal Tân yn sicrhau bod cydsyniad pendant yn cael ei roi i rannu'r wybodaeth hon gyda'r elusen, a bod yr unigolion yn ymwybodol sut y bydd yr wybodaeth yn cael ei rheoli a'i defnyddio.

3. Defnyddio Gwybodaeth Bersonol a Chyfrinachol

Bydd Atal Tân Cymru yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a chyfrinachol a ddarperir gan unigolion i'r dibenion canlynol:

3.1 Os byddant yn dymuno mynychu digwyddiad, er mwyn ei gwneud yn bosibl i reoli a gweinyddu'r gwaith trefnu.

3.2 Os byddant yn dymuno cael nwyddau neu wasanaethau (gyda thâl neu'n ddi-dâl), er mwyn prosesu'r archeb.

3.3 Os byddant yn cymryd rhan mewn cyfweliad, llenwi holiadur neu'n ymwneud â darparu gwybodaeth ymchwil fel arall, er mwyn coladu, adrodd a dadansoddi canlyniadau ymchwil.

3.4 Os byddant yn gwneud rhodd ariannol neu daliad arall, i ddiben prosesu'r rhodd neu'r taliad.

3.5 I unrhyw ddiben sy'n codi'n rhesymol o ganlyniad i'r unigolion gael mynediad at wasanaethau Atal Tân Cymru.

3.6 Os oes angen i'r elusen roi gwybod i unigolion ynglŷn â newidiadau neu ddatblygiadau pwysig yn Atal Tân Cymru.

3.7 Ar brydiau, er mwyn gwirio gwybodaeth bersonol a/neu gyfrinachol a ddarparwyd eisoes er mwyn sicrhau ei bod yn gyfoes a chywir. Rydym yn cadw'r hawl i wneud cais am wybodaeth bersonol a/neu gyfrinachol ychwanegol gan unigolion er mwyn cynnal gwiriadau (fel arfer mewn perthynas â thrafodion ariannol) gan ddefnyddio trydydd partïon i'r diben hwn. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn cael cydsyniad pendant i wneud hyn gan yr unigolyn.

3.8 I gysylltu ag unigolion trwy'r post, ffôn neu e-bost er mwyn hyrwyddo nodau ac amcanion yr elusen. Fe allai unigolion hefyd ddewis peidio â chael neb yn cysylltu â hwy fel hyn i'r dibenion hyn trwy ysgrifennu at Atal Tân Cymru, Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY, ffonio 01633 654 000 neu anfon e-bost i info@Atal Tân.org.

3.9 Os yw unigolyn wedi cydsynio i hynny, cysylltu â hwy trwy ffacs neu e-bost er mwyn hyrwyddo ein nodau a'n hamcanion, gofyn am roddion ariannol, darparu manylion ynglŷn â'n nwyddau a'n gwasanaethau ni a/neu ein trydydd partïon y credwn y byddent o ddiddordeb i chi, ac i ofyn ichi lenwi holiaduron ac arolygon. Gallwch ddewis peidio â chael neb yn cysylltu â chi fel hyn i'r dibenion hyn trwy ysgrifennu atom ar y Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY, ein ffonio ar 01633 654000 neu anfon e-bost i info@Atal Tân.org.

4. Datgelu Gwybodaeth Bersonol

Ni fyddwn yn gwerthu nac yn hurio'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu ynglŷn ag unigolion i unrhyw drydydd partïon. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i ddatgelu gwybodaeth bersonol mewn amgylchiadau cyfyngedig i rai trydydd partïon

fel a ganlyn:

4.1 I unrhyw is-gontractwyr y byddwn yn eu cyflogi i'n cynorthwyo i gynnal gweithgareddau neu wasanaethau ar ran yr elusen (e.e. ymchwilwyr), lle bo raid i'r contractwyr hynny gadw at ofynion Diogelu Data Atal Tân ei hun a safonau Polisi Preifatrwydd Atal Tân.

4.2 I ddarparwyr digwyddiadau sy'n cael eu his-gontractio, er mwyn ei gwneud yn bosib gweinyddu a rheoli digwyddiad, lle bo'n rhaid i'r is-gontractwyr hynny gadw at ofynion Diogelu Data a Pholisi Preifatrwydd Atal Tân ei hun.

4.3 I fanc neu gymdeithas adeiladu'r unigolyn a thrydydd partïon sy'n prosesu rhoddion ariannol a thaliadau ar ein rhan.

4.4 I drydydd partïon priodol i ddiben gwirio eich gwybodaeth bersonol a/neu deilyngdod credyd (mewn perthynas â rhodd ariannol neu drafodion ariannol arall).

4.5 Lle bo raid datgelu (i) i ymateb i wŷs, gorchymyn llys neu gais gan y llywodraeth neu gais gan unrhyw awdurdod priodol arall; (ii) i ddibenion cymryd camau cyfreithiol er mwyn sefydlu neu arfer ein hawliau cyfreithiol neu i amddiffyn hawliau cyfreithiol yn ein herbyn; (iii) i ymchwilio, atal a/neu gymryd camau eraill mewn cysylltiad â gweithgareddau anghyfreithlon posibl, twyll ariannol a amheuir a/neu sefyllfaoedd sy'n ymwneud â bygythiadau posib i ddiogelwch corfforol unrhyw bersonau; (iv) troseddau gwirioneddol neu a amheuir ynglŷn â pholisïau diogelu data'r elusen; neu (v) fel arall, fel y gofynnir a/neu ganiateir gan y gyfraith neu reoliadau.

4.6 Efallai hefyd y byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth gyfanredol ynglŷn â'r defnydd o Wefan Atal Tân, cymryd rhan mewn digwyddiadau, canlyniadau astudiaethau ymchwil ayyb i drydydd partïon, ond ni fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion (h.y. bydd yn aros yn ddi-enw)

5. Datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol

Rydym yn cadw'r hawl i ddatgelu eich gwybodaeth gyfrinachol dim ond yn yr amgylchiadau canlynol:

5.1 l'ch banc neu ddarparwr cerdyn credyd/debyd i ddiben cael rhoddion ariannol neu daliadau.

5.2 I sefydliadau trydydd parti priodol sy'n prosesu taliadau cerdyn credyd/debyd ar ran yr elusen.

5.3 Cydgasglu gwybodaeth sy'n ganlyniad cymryd rhan mewn digwyddiadau neu astudiaethau ymchwil, ond ni fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion.

6. Diogelwch a Chywirdeb Gwybodaeth, a Chadw Data

6.1 Mae gan Atal Tân Cymru fesurau trefniadol yn eu lle er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol unigolion. Byddwn yn defnyddio pob mesur rhesymol i ddiogelu gwybodaeth rhag cael ei newid, ei cholli neu ei chamddefnyddio. Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol a chyfrinachol gan unigolion am gyfnod rhesymol a chyhyd y mae'r gyfraith yn gofyn hynny.

6.2 Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir ynglŷn ag unigolion yn cael ei chadw ar ein

gweinyddion diogel. Ni fydd yr elusen yn gyfrifol am unrhyw wybodaeth bersonol a ddatgelir i drydydd partïon nad ydynt yn cynnig ffordd ddiogel i drosglwyddo gwybodaeth i'r elusen (e.e. e-bost).

6.3 Bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei darparu ynglŷn ag unigolion ar ffurf brintiedig yn cael ei chadw mewn systemau ffeilio dan glo, a dim ond staff sydd angen mynediad at yr wybodaeth hon er mwyn cyflawni eu gwaith (e.e. rheoli digwyddiadau, astudiaethau ymchwil ayyb).

6.4 Mae holl staff yr elusen wedi ymrwymo i bolisi'r sefydliad ynglŷn â Chyfrinachedd, a gallai torri'r polisi hwn neu rai eraill sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth a diogelu data olygu tramgwydd disgyblaethol.

6.5 Bydd yr holl staff yn derbyn digon o wybodaeth a hyfforddiant ynglŷn â rheoli, cadw a defnyddio Gwybodaeth Bersonol a Chyfrinachol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisïau perthnasol.

7. Mynediad at Wybodaeth Bersonol a Chyfrinachol a'i Diweddaru

Mae gan unigolion hawl i weld yr wybodaeth bersonol y mae'r elusen yn ei dal amdanynt, a gallant ofyn i'r elusen wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i sicrhau ei bod yn gywir ac yn gyfoes. Gofynnir i unigolion sy'n dymuno cael mynediad at yr wybodaeth, neu ddiweddaru'r wybodaeth, sydd gan Atal Tân Cymru, ysgrifennu at y Cydlynydd Gwasanaethau Canolog, Atal Tân Cymru, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY. Os bydd yr elusen yn cael gwybod yn ysgrifenedig fod unrhyw anghywirdeb, byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i gywiro'r wybodaeth.

8. Dinistrio Gwybodaeth Bersonol a Chyfrinachol.

Wrth ddileu â llaw unrhyw ffeiliau, cofnodion ac allbrintiadau cyfrifiadurol sy'n cynnwys data sensitif a gwybodaeth gyfrinachol, gwneir hynny mewn dull diogel (e.e. llarpio diogel.) Bydd gwybodaeth bersonol a chyfrinachol a ddarperir yn electronig yn cael ei dileu oddi ar systemau'r elusen yn rheolaidd.

9. Manylion Cyswllt.

Os oes gan unigolion neu sefydliad unrhyw gwestiynau neu sylwadau ynglŷn â'n Polisi Preifatrwydd, cysylltwch â ni trwy e-bost i info@Atal Tân.org, neu ysgrifennwch at y Cydlynydd Gwasanaethau Canolog, Atal Tân Cymru, Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY, neu ffoniwch ni ar 01633 654000.

Polisi Preifatrwydd – Atodiad 1

PREIFATRWYDD AR-LEIN
ATAL TÂN CYMRU

1. Cyffredinol

Yn ogystal â Pholisi Preifatrwydd Atal Tân Cymru a geir uchod, mae'r hyn a ganlyn yn ymwneud yn benodol â'ch **preifatrwydd ar-lein** a'ch defnydd o Wefan Atal Tân.

Trwy ddefnyddio gwefan Atal Tân Cymru, rydych yn cydnabod eich bod wedi darllen ein Polisi Preifatrwydd (gan gynnwys yr atodiad Polisi Ar-lein hwn).

Trwy ddefnyddio Gwefan Atal Tân Cymru rydych hefyd yn cytuno i ymrwymo i Delerau Defnyddio'r Wefan (link)

2. Casglu a Defnyddio Gwybodaeth Olrhain yn Electronig

Gallwn gasglu gwybodaeth am eich defnydd o Wefan Atal Tân pan fyddwch yn mynd ar Wefan Atal Tân.

Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth ynglŷn â'ch cyfrifiadur, gan gynnwys, lle bônt ar gael, gyfeiriad eich Darparwr Rhyngrwyd, system weithredu a math y porwr, a hynny ar gyfer diben gweinyddu'r system ac adrodd. Data ystadegol ynglŷn â gweithredoedd a phatrymau ein defnyddwyr yw hyn, ac nid oes modd adnabod unrhyw unigolyn.

Gallwn ddefnyddio technoleg i gasglu gwybodaeth ynglŷn â phatrymau ymddygiad ymwelwyr i Wefan Atal Tân. Fe allai hyn gynnwys defnyddio "cwci" a fyddai'n cael ei gadw ar eich porwr. Ffeil ddata fechan yw "cwci" sy'n cael ei ysgrifennu ar yriant caled defnyddiwr gan weinydd gwefan, a'i defnyddio i olrhain y tudalennau yr ymwelir â hwy. Bydd unrhyw wybodaeth a gesglir fel hyn yn cael ei defnyddio i:

(a) wella eich defnydd o Wefan Atal Tân;

(b) olrhain patrymau traffig ar Wefan Atal Tân; a

(c) darparu adroddiadau ar gyfer ein defnydd mewnol a/neu ar gyfer rhywrai sy'n darparu cynnwys i Wefan Atal Tân ac i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau a hysbysebir ar Wefan Atal Tân.

Gallwch reoli eich gosodiadau porwr y rhyngrwyd mewn perthynas â "cwcis" trwy

ddewis yr opsiwn priodol sydd ar gael ar eich porwr rhyngrwyd. Bydd hyn yn caniatau ichi naill ai (i) atal eich porwr rhag derbyn “cwcis” newydd; (ii) cael eich porwr i roi gwybod ichi pan fyddwch yn derbyn “cwci” newydd neu (iii) analluogi “cwcis” yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, fe allai hynny, eich rhwystro rhag defnyddio rhai agweddau ar Wefan Atal Tân.

Sylwer y gallai rhywrai sy’n darparu cynnwys ar gyfer Gwefan Atal Tân a chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau a hysbysebir ar Wefan Atal Tân hefyd ddefnyddio cwcis, nad oes gennym ni unrhyw reolaeth drostynt.

3. Defnyddio eich Gwybodaeth Bersonol

Yn ogystal â defnyddio eich gwybodaeth bersonol a chyfrinachol fel y nodir yn ein Polisi Preifatrwydd (uchod), gallwn hefyd ei defnyddio:

- i unrhyw ddiben sy’n codi’n rhesymol o ganlyniad i’ch defnydd o Wefan Atal Tân,
- i’ch hysbysu ynglŷn ag unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau pwysig i Wefan Atal Tân.

4. Datgelu

Ni fyddwn yn gwerthu nac yn hurio gwybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu amdanoch i unrhyw drydydd partïon. Fodd bynnag, yn ogystal â’r eithriadau a nodir yn ein Polisi Preifatrwydd, rydym hefyd yn cadw’r hawl i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw is-gontractwyr y gallwn fod yn eu cyflogi i’n cynorthwyo i weithredu Gwefan Atal Tân, neu i gynnal gweithgareddau a gwasanaethau eraill ar ran Atal Tân Cymru. Rhaid i unrhyw is-gontractwyr gadw at ofynion Diogelu Data Atal Tân ei hun a safonau Polisi Preifatrwydd Atal Tân.

5. Dolenni i wefannau eraill

O bryd i’w gilydd, fe allai gwefan Atal Tân gynnwys dolenni i (ac o) wefannau partïon eraill. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod dolenni i wefannau eraill wedi eu nodi’n glir.

Nid yw ein Polisi Preifatrwydd yn berthnasol i unrhyw drydydd partïon nad oes gennym ddim rheolaeth drostynt nac unrhyw wefannau eraill.

Rydym yn argymell eich bod yn edrych ar Bolisïau Preifatrwydd sy’n berthnasol i wefannau unrhyw drydydd parti cyn ichi gyflwyno unrhyw wybodaeth bersonol i’r gwefannau hynny.